*Dydd Llun 9fed Mawrth 2026, 18:00-20:00*

Undeb Aberystwyth

# CYFARFOD MAWR 2026

## Agenda:

- Croeso / Sylwadau Agoriadol
- Derbyn adroddiad yr ymddiriedolwyr
- Derbyn y cyfrifon blynyddol (Mae'r cynnwys hwn ar gael yn Saesneg yn unig. Ymddiheuriadau am unrhyw anghyfleustra.)
- Penodi Archwilwyr: Cadarnhau penderfyniad Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i benodi LHP yn Archwilwyr (wedi'i leoli yn Aber)
- Cymeradwyo'r rhestr o gysylltiadau (cysylltiadau ar gyfer Gorffennaf 2026-2027):
    - UCM DU £18,817, UCM Elusennol = £4,277- cyfanswm = £23,094
    - Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain (BUCS) = £6,400 (amcangyfrif) gan gynnwys costau teithio BUCS
    - Aelodaeth Advice UK = £280.00
    - Cyflog Byw Go Iawn: £150

  Cysylltiadau neu aelodaeth gynlluniau am ddim

    - Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)= ddim yn talu ar hyn o bryd
    - HALO
    - Mindful employer
- Eich Syniadau

- A ddylai Bwrdd Ymddiriedolwyr Undeb Aberystwyth benodi ymddiriedolwr sy'n fyfyriwr arall a fyddai'n cynrychioli grŵp demograffeg nad yw'n cael ei gynrychioli'n ddigonol gan y Bwrdd ar hyn o bryd.
- A ddylai Undeb Aber a'r Brifysgol weithredu polisi sy'n cydymffurfio â'r ymgyrch Boicotio, Gwaredu, a Sancsiynu *(S. BDS)*?
- **A ddylai Undeb Aber hyrwyddo heddwch trwy leihau militariaeth ar y campws a lobïo'r Brifysgol i wneud yr un peth**
- A ddylai Undeb Aber wneud Siarter Amddiffyn Anghytuno Amnesty y Deyrnas Unedig yn rhan o'i gyfansoddiad?
- Unrhyw Faterion Eraill
- Dyddiad cyfarfod nesaf y Senedd (27 Ebrill 2026- 18:00-20:00 Picturehouse UM)

# A ddylai Bwrdd Ymddiriedolwyr Undeb Aberystwyth benodi ymddiriedolwr sy'n fyfyriwr arall a fyddai'n cynrychioli grŵp demograffeg nad yw'n cael ei gynrychioli'n ddigonol gan y Bwrdd ar hyn o bryd.

**Cyflwynwyd gan**: Millie Hackett

## Crynodeb

Penodi Archwilwyr: cadarnhau penderfyniad Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i benodi LHP yn Archwilwyr (wedi'i leoli yn Aber)

## Newidiadau arfaethedig i'r cyfansoddiad:

14.3.1 Etholir hyd at ddau Ymddiriedolwr sy'n Fyfyriwr trwy bleidlais gudd gan yr Aelodaeth mewn etholiadau a gynhelir yn unol ag Is-Ddeddf 1 – Etholiadau. Rhaid cael un myfyriwr is-raddol ac un myfyriwr ôl-raddol.

14.3.2 Penodir hyd at un Ymddiriedolwr sy'n Fyfyriwr gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Dylai'r bwrdd ymdrechu i flaenoriaethu'r swydd hon ar gyfer myfyriwr o ddemograffig nad yw'n cael ei gynrychioli'n ddigonol gan y swyddogion etholedig a'r Ymddiriedolwyr sy'n Swyddogion presennol.

14.3.3 Rhaid i bob Ymddiriedolwr sy'n fyfyriwr fod yn fyfyriwr ar adeg ei ethol (a pharhau i fod yn fyfyriwr am weddill ei gyfnod fel Ymddiriedolwr sy'n Fyfyriwr).

14.3.4 Bydd rhaid i Ymddiriedolwyr sy'n Fyfyrwyr aros yn y swydd am gyfnod o ddwy flynedd gan gychwyn yn unol ag Atodlen 2. Gall y cyfnod yn y swydd fod yn fyrrach neu'n hirach er mwyn cyd-fynd â phryd bydd y trawsnewid yn dechrau neu'n gorffen yn y flwyddyn.

14.3.5 Caiff Ymddiriedolwr sy'n Fyfyrwyr wasanaethu am hyd at ddau gyfnod yn olynol ar y mwyaf..

# A ddylai Undeb Aber a’r Brifysgol weithredu polisi sy’n cydymffurfio â’r ymgyrch Boicotio, Gwaredu, a Sancsiynu *(S. BDS)*?

**Cyflwynwyd gan**: Ella Ward

## Crynodeb

Dylai Undeb Aber a Phrifysgol Aberystwyth weithredu polisïau sy’n cydymffurfio â’r ymgyrch Boicotio, Gwaredu a Sancsiynu, gan wrthod cydweithio â’r busnesau a enwir ar y rhestr foicotio (Domino’s Pizza), a gwahardd y Brifysgol rhag defnyddio adeilad yr Undeb at werthu nwyddau gwaharddedig (Costa Coffe a Coca Cola).

Byddai hyn yn cynnwys: peidio â gwerthu unrhyw nwyddau ar restr yr ymgyrch Boicotio, Gwaredu a Sancsiynu, gan wahardd mannau sy’n eiddo i’r Brifysgol rhag gwerthu nwyddau a geir ar restr yr ymgyrch Boicotio, Gwaredu a Sancsiynu yn adeilad yr Undeb, a gwrthod cydweithio â’r busnesau a enwir ar y rhestr foicotio.

## Manylion:

Mae’r hil-laddiad ar droed yng Ngaza gan Israel yn erbyn pobl Palestina ers y ddwy flynedd ddiwethaf o bryder mawr i lawer o fyfyrwyr, heb sôn am y degawdau o feddiannu, apartheid a’r defnydd ar garcharu gweinyddol yn erbyn Palestiniaid yng Ngaza a’r Lan Orllewinol. Ers peth amser, mae galwadau rhyngwladol i foicotio corfforaethau sydd ynghlwm â hyn, gan gynnwys Coca Cola (sy’n berchen ar Costa Coffe). Ceir gwybodaeth bellach yma (yn y Saesneg): (FOA | Peace in Palestine - #BoycottCocaCola a Everything You Need to Know: Why We Boycott Coca Cola | Boycat Times) a Domino’s Pizza (Should You Boycott Domino's Pizza? | BDS List (2025)). Y manteision a fyddai’n codi trwy roi’r gorau i’r Undeb yn gweithio gyda’r corfforaethau hyn yw y byddai’n caniatáu i ni gefnogi busnesau lleol a buddsoddi ynddynt a chefnogi’r economi a’r gymuned leol yma yng Nghymru, yn ogystal â sicrhau cadw ceiniogau y myfyrwyr sy’n cymryd rhan yn y boicot o fewn yr Undeb! Rwy’n sicr y byddai’n well gan y rhan fwyaf o fyfyrwyr brynu coffi gan gyflenwr lleol na chadwyn cwmni mawr.

# A ddylai Undeb Aber hyrwyddo heddwch trwy leihau militariaeth ar y campws a lobïo'r Brifysgol i wneud yr un peth?

**Cyflwynwyd gan**: Samuel Thomas Andreetti

## Crynodeb

Byrdwn y cynnig hwn yw gofyn i Undeb Aberystwyth wneud safiad clir, ymarferol o blaid heddwch ar y campws. Nod y cynnig yw lleihau normaleiddio militareiddio ym mywydau myfyrwyr gan osod ffiniau o amgylch presenoldeb y filitariaeth a chwmnïau arfau/amddiffyn ym mannau'r Undeb. Yn nhermau cadarn ac ymarferol:

(i) ni fyddai'r Undeb yn gwahodd y lluoedd arfog (heblaw am gymdeithasau cysylltiedig â'r lluoedd arfog yn y Brifysgol) i Ffair y Glas neu unrhyw ddigwyddiadau eraill gan yr Undeb;
(ii) Peidio â chynnig llwyfan na hyrwyddo'r lluoedd arfog, dros y cyfryngau cymdeithasol, diweddaru'r contract â'r contractwr Native
(iii) lobio'r Brifysgol i ymrwymo i safonau buddsoddi rhwymol tryloyw.
(iv) lobïo'r Brifysgol i ymrwymo i safonau ymchwil rhwymol tryloyw gan gydnabod y bydd yn waith anodd.
(v) lobïo Adran Yrfaoedd y Brifysgol i roi'r gorau i weithio gyda swyddi yn y sector milwrol/arfau ac i'w hyrwyddo.

## Manylion

Gall militariaeth wreiddio yn niwylliant y campws wrth i sefydliadau milwrol ennill gwelededd a hygrededd trwy ddigwyddiadau Croesawu, gweithgarwch gyrfaoedd, a pherthnasoedd sefydliadol nad ydynt bob amser yn dryloyw i fyfyrwyr.  Moment ffurfiannol unigryw yw Ffair y Glas: mae myfyrwyr yn eu lleoli eu hunain yn nhermau cymdeithasol ac ymarferol. Gall gweithgarwch recriwtio mewn mannau a arweinir gan fyfyrwyr wneud y ffiniau rhwng meithrin cymuned a listio'n aneglur.

Yn yr un modd, mae llwyfannau yr Undeb yn awgrymu cefnogaeth; mae peryg i wahodd recriwtwyr milwrol, cwmnïau arfau, neu gontractwyr amddiffyn roi'r argraff fod recriwtio milwrol yn llwybr gyrfa annadleuol, er gwaethaf pryderon moesegol dilys ymysg myfyrwyr.

Y tu hwnt i recriwtio, mae ariannu ymchwil cysylltiedig â'r sector amddiffyn yn y Brifysgol a buddsoddi ynddo yn dod â phryderon ehangach ynghylch atebolrwydd a chydsyniad i'r wyneb: Byddai'n rhesymol i fyfyrwyr ddisgwyl i bartneriaethau ac arian eu sefydliad fod yn gydnaws â chyfrifoldeb dinesig (gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).

Testun pryder mawr yw y gall partneriaethau sefydliadol neu fuddsoddi mewn cynhyrchwyr arfau a chontractwyr amddiffyn olygu bod â rhan faterol mewn torri hawliau dynol difrifol, gan gynnwys yr hil-laddiad sydd ohoni yng Ngaza, gan ddwysáu'r angen taer am dryloywder a chraffu moesegol. Heb safonau clir, nid oes gan fyfyrwyr broses gadarn i herio presenoldeb militariaeth a'i dylanwad ar fywyd prifysgol.

Mae'r Agenda Heddwch yn cynnig ffordd gymesur, hawdd ei gweithredu o leihau militariaeth ar y campws gan amddiffyn uniondeb integreiddio a llesiant sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr trwy sicrhau nad oes recriwtio i'r filitariaeth yn nigwyddiadau yr wythnos groeso. Yn olaf, bydd lobïo strwythuredig o blaid safonau ymchwil a buddsoddi moesegol sy'n rhwymo'r Brifysgol (wedi'u gwreiddio mewn tryloywder, gwahardd buddsoddiadau) yn troi egwyddorion eang yn ddisgwyliadau ymarferol ac yn rhoi llwybr gweithredu i arweinwyr y Brifysgol.

# A ddylai Undeb Aber wneud Siarter Amddiffyn Anghytuno Amnesty y Deyrnas Unedig yn rhan o'i gyfansoddiad?

**Cyflwynwyd gan**: Samuel McCarthy Vicente

## Crynodeb

Rydym am gyflwyno Siarter Amddiffyn Anghytuno Amnesty y Deyrnas Unedig i gyfansoddiad Undeb y Myfyrwyr er mwyn amddiffyn rhyddid academaidd, rhyddid barn, a'r hawl i brotestio.

## Manylion:

Rydym yn gobeithio mynd i'r afael â'r materion ynghylch rhyddid barn, yr hawl i brotestio, a rhyddid academaidd ar y campws gan wneud Siarter Amddiffyn Anghytuno Amnesty y Deyrnas Unedig yn rhan o gyfansoddiad Undeb y Myfyrwyr. Yn y siarter hon, ceir gofynion â'r nod o gyflawni'r canlynol: sicrhau rhyddid mynegiant ac ymgynnull, cael gwared ar reolau protestio rhwystrol, rhoi terfyn ar gam-drin camau disgyblu, rhoi terfyn ar ffyrdd busneslyd o fonitro a rhannu data, osgoi gwahaniaethu, herio islamoffobia a gwrth-semitiaeth, bod yn glir ac yn atebol, creu trefn annibynnol ar gyfer atebolrwydd, sefydlu gwasanaethau priodol i fyfyrwyr mewn perygl, a gweithredu pan fo rhyddid barn yn y fantol. Trwy fabwysiadu y Siarter Amddiffyn Anghytuno, bydd Undeb Aber yn lleihau'r risgiau sensro posibl a bydd yn atebol i'r corff myfyrwyr yn achos argyfwng neu sensro.